# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 13 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ysgolion (Cynllunio'n Ariannol)

**C1 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut mae sicrhau bod ysgolion Cymru yn gallu cynllunio'n ariannol yn effeithiol o flwyddyn i flwyddyn? (OAQ18289) [W] ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae rhai awdurdodau lleol yn arddel arfer da ar hyn o bryd, drwy ddarparu cyllidebau dangosol i'w hysgolion hyd at dair blynedd o flaen llaw. Hoffwn weld hyn yn dod yn arfer cyffredin. Bydd y Mesur Addysg, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu fforymau lleol er mwyn trafod materion cyllidebol gydag ysgolion. Y math hwn o ddeialog strwythuredig yw'r ffordd gywir o ddelio ag angen ysgolion i gynllunio ymlaen llaw.

### Siopau Ffrwythau mewn Ysgolion

**C9 Mick Bates:** Sawl ysgol yng Nghymru sydd â siop ffrwythau? (OAQ18304)

**Jane Davidson:** Ar hyn o bryd, mae 253 o siopau ffrwythau yn cael eu sefydlu mewn ysgolion sy'n rhan o rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ18310) yn ôl.*

### Menter Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith (Cynllun Peilot)

**C11 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fenter beilot cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yng Nghymru? (OAQ18311)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd nifer o gamau fel rhan o'i hymgyrch i hybu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yng Nghymru. Fis diwethaf, yr oedd yn bleser gennyf gyhoeddi manylion un o'n camau allweddol: sefydlu cynlluniau peilot arfer da yn y sector cyhoeddus. Caiff y rhain eu hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad am dair blynedd, a chânt eu rheoli gan Chwarae Teg. Mae'r cyrff llwyddiannus yn cynnwys tri awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam), dau gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (Dysgu ac Addysgu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) a dwy brifysgol (Caerdydd a Choleg y Drindod, Caerfyrddin). Mae'r cyrff hyn yn cynrychioli amrywiaeth da o swyddogaethau, maint a lleoliadau daearyddol, a gobeithiaf y bydd modd cymhwyso'r gwersi a ddysgir o'r cynlluniau peilot ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Ysgolion Ffydd

**C12 Brian Gibbons:** Pa gyfran o blant ysgol gynradd yng Nghymru sy'n mynychu ysgolion ffydd? (OAQ18300)

**Jane Davidson:** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (Ionawr 2001) yn dangos bod 13 y cant o ddisgyblion ysgolion cynradd (36,456 o 285,786) yn mynychu ysgolion a gynhelir y dynodir bod iddynt nodwedd grefyddol.

### Taliadau Hwyr i Ysgolion (Graddfa Gyflog Uwch i Athrawon)

**C13 Helen Mary Jones:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu cael oddi wrth yr undebau athrawon ynghylch taliadau hwyr i ysgolion i ariannu costau athrawon sy'n esgyn i'r raddfa gyflog uwch? (OAQ18287)

**Jane Davidson:** Mae llawer o bobl wedi codi pryderon am yr arian ar gyfer cyflogau athrawon. Addewais yn fy natganiad ar 2 Mai y byddem yn ystyried y dystiolaeth gadarn a geir ar ddarpariaeth awdurdodau lleol i ysgolion. O ganlyniad, daethom i'r casgliad, yng ngoleuni'r pwysau a ganfuwyd, y dylid rhyddhau £18.7 miliwn pellach i awdurdodau addysg lleol ar gyfer 2002-03 fel grant arbennig.

Dengys y dystiolaeth y dylai ysgolion, gyda'r cyllid ychwanegol hwn, allu bodloni'r pwysau a gyfyd yn ystod y flwyddyn hon o'r trefniadau cyflogau newydd, gan sicrhau nad oes yn rhaid iddynt atal staff rhag symud ymlaen dan y trefniadau newydd am resymau ariannol yn unig. Yr ydym wedi penderfynu y dylid darparu'r holl gyllid angenrheidiol ar unwaith, a chaiff adroddiad grant arbennig ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo gan Aelodau cyn diwedd y sesiwn.

### Recriwtio a Chadw Staff yn y Sector Addysg Uwch

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Pa ymchwiliad pellach sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r anawsterau recriwtio a chadw staff yn y sector addysg uwch yng Nghymru? (OAQ18295)

**Jane Davidson:** Mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol, ac maent yn gyfrifol am eu materion rheoli eu hunain, gan gynnwys cyflogau ac amodau cyflogaeth staff. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau i ymyrryd. Serch hynny, mae'r Cynulliad yn disgwyl i'r sefydliadau ddilyn polisïau cyflogau'r sector cyhoeddus ac adlewyrchu'r egwyddor o degwch a'r angen i recriwtio, cymell a chadw staff o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y setliad cyllid addysg uwch. Hefyd, mae sefydliadau addysg uwch dan rwymedigaeth statudol i dalu i staff yr un cyflog am yr un gwaith. Yn 2001-02, bu inni ryddhau £3 miliwn ychwanegol i'r sector i fodloni'r pwysau, a oedd yn cynnwys cadw a recriwtio staff. Yr ydym wedi dyrannu £6 miliwn pellach yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae'r strategaeth addysg uwch 'Ymgeisio yn Uwch' yn tanlinellu pwysigrwydd recriwtio a chadw myfyrwyr, yn enwedig yng nghyd-destun ehangu mynediad. Mae ffigurau diweddaraf Gwasanaeth Mynediad Prifysgolion a Cholegau yn dangos bod y ceisiadau ar gyfer cyrsiau gradd ar gyfer blwyddyn academaidd 2002-03 wedi cynyddu 5.1 y cant yng Nghymru, o'i gymharu â'r ffigurau cyfatebol ar gyfer blwyddyn academaidd 2001-02. Mae'r cynnydd hwn yn uwch nag yn Lloegr, yn yr Alban, ac yng Ngogledd Iwerddon.

Dengys y dangosyddion perfformiad diweddaraf fod Cymru hefyd yn perfformio'n well na rhannau eraill o'r DU o safbwynt cadw myfyrwyr. Rhoddwyd cyfrifoldeb ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i annog pob sefydliad addysg uwch i ystyried strategaethau cadw, gan adleisio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r agenda ehangu mynediad.

### Cyflogau ac Amodau Gwaith Darlithwyr

**C15 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflogau ac amodau gwaith darlithwyr yng Nghymru y llynedd? (OAQ18285)

**Jane Davidson:** Mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol, ac maent yn gyfrifol am eu materion rheoli eu hunain, gan gynnwys cyflogau ac amodau cyflogaeth staff. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau i ymyrryd. Serch hynny, mae'r Cynulliad yn disgwyl i'r sefydliadau ddilyn polisïau cyflogau'r sector cyhoeddus ac adlewyrchu'r egwyddor o degwch a'r angen i recriwtio, cymell a chadw staff o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y setliad cyllid addyg uwch. Hefyd, mae sefydliadau addysg uwch dan rwymedigaeth statudol i dalu i staff yr un cyflog am yr un gwaith. Yn 2001-02, bu i ni ryddhau £3 miliwn ychwanegol i'r sector i fodloni'r pwysau, a oedd yn cynnwys cadw a recriwtio staff. Yr ydym wedi dyrannu £6 miliwn pellach yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofal Arthritis yng Nghymru

**C8 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer gofal arthritis yng Nghymru? (OAQ18276)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr wyf yn ymwybodol o'r gefnogaeth a geir i hyn, a fynegwyd yn lansiad Cymdeithas Arthritis Gwynegol Genedlaethol Cymru yn ddiweddar. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion bwyso a mesur y cynigion hyn ac adrodd yn ôl i mi.

### Cynyddu Gweithlu'r GIG

**C9 Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i barhau i gynyddu gweithlu'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? (OAQ18256)

**Jane Hutt:** Ers 1997, mae nifer y staff sy'n cyfateb i staff amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG wedi cynyddu 8 y cant. Mae nifer yr ymgynghorwyr wedi cynyddu 24 y cant, a'r staff nyrsio 6 y cant. Bwriadwn ymestyn y cynllun dychwelyd-i-ymarfer ar gyfer nyrsys i broffesiynau eraill. Bydd ein strategaeth genedlaethol i recriwtio a chadw staff yn rhoi sylw i broffesiynau lle mae prinder.

### Syndrom Rhyfel y Gwlff

**C10 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu'r rhai sy'n dioddef o syndrom rhyfel y Gwlff? (OAQ18275)

**Jane Hutt:** Mae rhai o gyn-filwyr rhyfel y Gwlff wedi eu taro'n wael a chred llawer fod y gwaeledd hwn yn anghyffredin a'i fod yn gysylltiedig â'u profiadau yn rhyfel y Gwlff. Bellach, ceir tystiolaeth bod mwy o waeledd ymysg cyn-filwyr rhyfel y Gwlff na grwpiau eraill y gellir cymharu â hwy, ond nid oes consensws meddygol na gwyddonol ar achosion y gwaeledd.

Gan y Weinyddiaeth Amddiffyn y mae'r prif gyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â gwaeledd cyn-filwyr rhyfel y Gwlff. Mae'r pwnc yn dal yn fater y rhoddir blaenoriaeth iddo, fel y mae'r Rhaglen Asesiadau Meddygol ar gyfer Cyn-filwyr y Gwlff yn profi, ynghyd â'r gefnogaeth barhaus a roddir i waith ymchwil.

Gall pob un o gyn-filwyr rhyfel y Gwlff gael gafael ar gyngor meddygol drwy Raglen Asesiadau Meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer Cyn-filwyr Rhyfel y Gwlff, a buaswn yn annog cyn-filwyr rhyfel y Gwlff, sy'n pryderu am eu hiechyd, i ymuno â'r rhaglen.

### Strategaeth Arthritis Gwynegol

**C11 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth ar gyfer arthritis gwynegol yng Nghymru? (OAQ18324)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol o'r gefnogaeth a geir i strategaeth o'r fath, a fynegwyd yn lansiad Cymdeithas Arthritis Gwynegol Genedlaethol Cymru yn ddiweddar. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am noddi'r lansiad. Rhaid i'm swyddogion a minnau bwyso a mesur yn ofalus pa un ai llunio strategaeth yw'r ffordd orau ymlaen ynteu a allwn wella gwasanaethau arthritis yng Nghymru mewn ffyrdd eraill. Os penderfynwn lunio strategaeth, rhaid imi ystyried a ddylem ganolbwyntio'n unig ar arthritis gwynegol ynteu a fyddai'n rheitiach cynnwys pob math o arthritis. Croesawaf y cysylltiadau a adnewyddwyd gyda sector gwirfoddol arthritis, a byddaf yn cadw mewn cysylltiad agos gyda'i safbwyntiau wrth inni benderfynu ar y dull gweithredu gorau.

**Deintyddion GIG yn y Canolbarth**

**C12 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses o recriwtio deintyddion y gwasanaeth iechyd gwladol yn y Canolbarth? (OAQ18317)

**Jane Hutt:** Mae sicrhau bod cleifion sydd am dderbyn triniaeth gan ddeintyddion y GIG yn gallu gwneud hynny yn parhau'n gyfrifoldeb awdurdodau iechyd Cymru. Byddaf yn parhau i'w helpu i gyrraedd y targed hwn drwy gynllun deintyddol Cymru, sydd wedi llwyddo i ddenu deintyddion newydd i'r rhannau hynny o Gymru lle'r oedd eu hangen fwyaf.

**Gwasanaethau Podiatreg yng Nghymru**

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad gwasanaethau podiatreg yng Nghymru? (OAQ18342) [R]

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb awdurdodau iechyd lleol yw darparu'r holl wasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau podiatreg. Rhaid iddynt asesu anghenion yr ardal leol a, chan weithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG, grwpiau iechyd lleol, y sector gwirfoddol ac eraill, chynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaethau iechyd i fodloni'r angen hwnnw yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Nid ydynt yn benderfyniadau hawdd i'w gwneud, ond yr awdurdodau, gyda'u gwybodaeth leol, sydd yn y sefyllfa orau i flaenoriaethu'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen.

I'w cefnogi, ar hyn o bryd yr ydym yn comisiynu 28 o leoedd hyfforddi bob blwyddyn ar gwrs BSc (Anrh) Podiatreg yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'r nifer hwnnw wedi aros yn gyson ers inni ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gomisiynu hyfforddiant podiatreg yn 1998.

**Ffigurau'r Rhestrau Aros Diweddaraf ar gyfer Cymru**

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffigurau'r rhestrau aros diweddaraf ar gyfer Cymru? (OAQ18260)

**Jane Hutt:** Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer cyflyrau'r galon; ar 1 Ebrill 2002, nid oedd unrhyw un yng Nghymru wedi bod yn aros yn hwy na 12 mis am lawdriniaeth ar y galon. Mae'r ffigurau orthopedeg, sydd yn faes a dargedwyd, yn parhau i syrthio. Ers mis Gorffennaf diwethaf, mae nifer y bobl sy'n aros yn hwy na phedwar mis am lawdriniaeth ar gyfer cataractau wedi gostwng bron i 60 y cant.

**Cyffuriau Lladd Poen**

**C15 Jocelyn Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn mynd ati i sicrhau bod cyffuriau lladd poen newydd ar gael yn ehangach? (OAQ18345)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn sicr pa gyffuriau sydd gennych dan sylw. Mae pob cyffur ar gael i'w roi ar bresgripsiwn dan y GIG, cyn belled â bod ganddo'r caniatâd marchnata priodol ac na chaiff ei restru o dan ran XVIIIA y tariff cyffuriau. Mater o farn glinigol, wedyn, yw dewis pa gyffur y dylid ei weinyddu.